

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o Pwyllgor Craffu Cymunedaua gynhaliwyd yn COUNCIL CHAMBER, COUNTY HALL, RUTHIN AND BY VIDEO CONFERENCE ar Dydd Iau, 4 Mai 2023 am 10.00 am

YN BRESENNOL

Cynghorwyr - Michelle Blakeley-Walker, Karen Edwards (Is-Gadeirydd), Pauline Edwards, James Elson, Jon Harland, Alan James, Brian Jones, Delyth Jones, Merfyn Parry, Cheryl Williams a/ac Huw Williams (Cadeirydd)

Arsylwyr – Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones, Y Cynghorydd Bobby Feeley, Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Y Cynghorydd Barry Mellor a/ac Y Cynghorydd Mark John Young

Aelod Arweiniol - Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, y Cynghorydd Barry Mellor

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW), Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch ar y Ffyrdd (MJ), Arweinydd Tîm - Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau (PM), Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (AC), Cydlynwyr Craffu (KE a RE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (KJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio, y Councillor Win Mullen-James wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer eitem 5 - Strategaeth Arwyddion Twristiaeth Drafft ar gyfer Sir Ddinbych.

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a'r Amgylchedd, Tony Ward wedi ymddiheuro. Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes yn bresennol i'w gynrychioli.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y cyfraniad gwerthfawr roedd Aelodau Arweiniol yn ei gynnig i drafodaethau craffu a bu iddo erfyn ar Aelodau Arweiniol i fod yn bresennol os ydynt yn gallu.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023.

Penderfynwyd: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Mawrth 2023 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

5 STRATEGAETH ARWYDDION I DWRISTIAID SIR DDINBYCH DRAFFT

Rhoddodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffordd wybod i'r Pwyllgor yn anffodus nad oedd yr Aelod Arweiniol yn gallu mynychu i gyflwyno'r adroddiad gan nad oedd y Swyddogion wedi darparu digon o amser i'r Aelod wneud trefniadau i fynychu.

Cafodd yr Aelodau eu harwain drwy'r adroddiad (a ddsbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Drafft Arwyddion Twristiaeth a gyfeiriwyd yn flaenorol fel y Strategaeth Arwyddion Twristiaeth. Roedd yn gam gweithredu o fewn y Strategaeth Twristiaeth y Cyngor a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2020.

Pwrpas y papur oedd darparu diweddariad i aelodau ar brosiectau a gwblhawyd hyd yma, gan gynnwys cynllun arwyddion brown Dyffryn Clwyd. Roedd hefyd yn cynnig rhestr syml o brosiectau arwyddion brown a oedd yn cynnwys:

- arwyddion twristiaeth allweddol ar yr A55 yn rhestru atyniadau lleol,
- arwydd newydd yn lle arwydd y Rhyl presennol ar y ffordd tua gorllewin cyn cyffordd 27,
- arwydd newydd ar gyfer y Rhyl wedi'i leoli ar ffordd y dwyrain ar gyffordd 23a a
- arwyddion brown ar gyfer Prestatyn ar ffordd y dwyrain yr A55 a fydd yn adlewyrchu'r arwyddion sydd mewn lle ar hyn o bryd ar yr ochr orllewinol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y strategaeth yn bwriadu datblygu arwyddion brown ar gyfer Llangollen ac adolygu'r arwyddion presennol ar y ffordd i mewn i'r ardal, ynghyd ag adolygu'r arwyddion cefnffordd bresennol yn Rhuthun a Chorwen.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei gyflwyniad manwl o'r adroddiad. Cododd bryder bod elfennau o'r adroddiad i weld yn wag. Yn ystod y drafodaeth, trafodwyd y pwyntiau canlynol yn fwy manwl:

- Pwysleisiodd Swyddogion bod y sylw mewn perthynas â lloerenni llywio a defnydd o ddyfeisiau yn cydnabod y defnydd cynyddol o ddyfeisiau gan unigolion i lywio i ardaloedd o ddiddordeb. Pwysleisiodd aelodau nad oedd pob unigolyn yn defnyddio technoleg ac yn aml iawn yn dibynnu ar arwyddion brown i lywio i ardal.

- Roedd cefnffyrdd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru. Maent gyda pholisi mewn perthynas ag arwyddion brown, sydd yn datgan y gallai unrhyw atyniad twristiaeth wedi'i gyfeirio o gefnffyrdd ond cael eu cyfeirio o'r gefnffordd agosaf. Gan edrych ar Ruthun, y gefnffordd agosaf oedd yr A494. Felly ni fyddai arwyddion brown sy'n berthnasol i atyniadau Rhuthun yn gallu cael ei roi ar hyd yr A55. Roedd amod ar wahân yn nodi gallwch ond cyfeirio at atyniad o fewn radiws 10 milltir o gefnffordd.
- Roedd Grŵp Tasg a Gorffen blaenorol wedi'i sefydlu i adolygu syniad y strategaeth arwyddion gwreiddiol a oedd yn edrych ar deithiau arwyddion twristiaeth a fyddai'n ategu Ffordd y Gogledd. Mae nifer o ffactorau wedi arwain at rai prosiectau yn peidio â datblygu mor gyflym a gobeithiwyd.
- Nid yw llwybr wedi'i gynnwys yn y strategaeth ddiwygiedig. Cafodd yr Aelodau wybod bod gwaith a wnaethpwyd ar lwybrau yn flaenorol wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r llwybrau yn yr ardal. Cyhoeddwyd taflenni yn hyrwyddo ardaloedd o ddiddordeb drwy Ffordd y Gogledd a Darganfod Sir Ddinbych ar Lwybrau. Atgoffwyd Aelodau bod llawer iawn o wybodaeth ar gael ar-lein ar gyfer preswylwyr.
- Byddai adnewyddu arwydd y Rhyl yn galluogi swyddogion i gynnwys ychydig o atyniadau newydd i ymwelwyr ar hyd yr arfordir.
- Presenoldeb gwell ar gyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo atyniadau yn cyd-fynd gyda'r defnydd o arwyddion brown.
- Adolygiad o'r bylchau mewn adnoddau yn cael ei wneud. Roedd recriwtio yn heriol. Roedd y swyddogion yn trafod pwysau ar y tîm a'r adnoddau sydd ei angen yn yr ardal wasanaeth.
- Roedd yr arwyddion arfaethedig ar gyfer arwyddion Dwyrain a Gorllewin ar hyd yr A55 wedi bwriadu i annog twristiaid sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad i ddod i'r ardal.
- Byddai'r adroddiad asesiad o les yn cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys gwybodaeth a oedd wedi'i adael allan.
- Nododd Swyddogion bod yr arwyddion yn cael eu gwneud gan ddeunyddiau cyfansawdd ond yn agored i ddefnydd o ffurfiau eraill o ddeunyddiau.
- Roedd gwaith cychwynnol wedi dechrau ar adolygiad Llangollen 12 mis yn ôl, oherwydd problemau capasiti nid oedd wedi'i ddatblygu. Gobeithir fel rhan o'r strategaeth ddiwygiedig y gallai'r gwaith ailddechrau. Darparwyd sicrwydd y bydd gwaith gydag Aelodau Lleol yn cael ei wneud.
- Awgrymodd Aelodau i gael diweddariad ym mhob un Grŵp Ardal yr Aelodau ar y strategaeth ddiwygiedig a'r goblygiadau y gallai gael ar bob ardal.
- Roedd cyllid ar gyfer arwyddion brown yn cael eu ceisio'n draddodiadol ar ddull ad hoc gan weithredwr twristiaeth i'r awdurdod priffyrdd. Byddai trafodaethau gyda'r asiantaeth cefnffordd yn cael eu cynnal os byddai cais yn dod i law am arwydd cefnffordd. Bydd rhaid bodloni meini prawf i gael caniatâd ar gyfer arwydd brown. Byddai amcangyfrifon cost yn cael ei wneud a'i gyflwyno i'r gweithredwr twristiaeth i bennu os oeddynt yn dymuno parhau.
- Cafwyd adborth gan fusnesau ynghylch arwyddion brown gan nifer o wahanol ffynonellau a chynhaliwyd fforymau yn rheolaidd. Teimlwyd bod arwyddion brown yn un elfen o dwristiaeth yn yr ardal ynghyd â thechnoleg, cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu gyda phreswylwyr lleol.

- Roedd gan Lywodraeth Cymru gynllun ymgysylltu cenedlaethol i hysbysu pobl o'r newidiadau i Gyfraith Cymru o ran y cyfyngiadau cyflymder.
- Amlygodd Aelodau'r pwysigrwydd o arwyddion brown o fewn yr awdurdod.
- Roedd gwybodaeth o fewn y papurau yn nodi gwybodaeth ynghylch gosod arwyddion brown newydd ar hyd yr A55. Fel awdurdod, roedd Sir Ddinbych yn cefnogi arwyddion brown. Roedd y cynnig ar gyfer arwyddion brown ychwanegol ac nid cael gwared ar arwyddion presennol.
- Defnyddiwyd y broses C360 ar gyfer ymholiadau cychwynnol i swyddogion gysylltu gyda phreswylwyr neu aelodau i ddechrau'r sgysiau.
- Cadarnhaodd Datganiad Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod â deddfwriaeth drafft ymlaen mewn perthynas ag ardoll ymwelwyr.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am y drafodaeth fanwl a nodwyd yr argymhellion ychwanegol i'w hychwanegu i'r rheiny a nodwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNODD Y PWYLLGOR - yn amodol ar y sylwadau uchod

- I. cadarnhau, wrth ystyried y mater, ei fod wedi darllen yr Asesiad o'r Effaith ar Les, ei ddeall a'i gymryd i ystyriaeth, a gofyn am adolygu a diwygio'r Asesiad o'r Effaith ar Les yn gyson wrth i'r Cynllun Arwyddion Twristiaeth ddatblygu ac esblygu;*
- II. gofyn am adroddiad i'r Pwyllgor ymhen chwe mis ynglŷn â'r cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu Cynllun Arwyddion Twristiaeth Sir Ddinbych. Dylai'r adroddiad gynnwys cynllun gweithredu manwl ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith a chyflawni ei amcanion, y costau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cynllun, manylion y ffrydiau cyllid y bwriedir eu defnyddio i'w gynnal, ynghyd ag Asesiad diwygiedig o'r Effaith ar Les a manylion ynglŷn â'r wybodaeth sydd ar wefan y Cyngor am sut y gallai busnesau lleol elwa ar gyfleoedd gydag arwyddion i dwristiaid;*
- III. gofyn am gyflwyno Cynllun Arwyddion Twristiaeth Sir Ddinbych gerbron holl Grwpiau Ardal yr Aelodau er trafodaeth, er mwyn ymchwilio i sut y gallai'r holl ardaloedd, yn drefol a gwledig, elwa i'r eithaf ar yr effaith economaidd a'r buddion a ddaw drwy'r Cynllun;*
- IV. gofyn am gyflwyno unrhyw wybodaeth oedd ar gael ynglŷn â'r Ardoll Ymwelwyr newydd i aelodau etholedig, gan gynnwys y manteision ac anfanteision economaidd posib o gyflwyno ardoll ymwelwyr yn Sir Ddinbych o safbwynt economi'r sir a'i chymunedau; a*
- V. gofyn am wneud ymholiadau â datblygwyr systemau llywio â lloeren ynglŷn â sut y gellid cynnwys atyniadau twristiaid yn Sir Ddinbych wrth ddiweddarau ac uwchraddio systemau yn y dyfodol.*

6 GWEITHGOR RISG O LIFOGYDD

Cyflwynodd Barry Mellor, Aelod Arweiniol Cludiant a'r Amgylchedd ynghyd â Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yr adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) Mae'r adroddiad yn sôn am ofyniad Cyngor Sir Ddinbych i lunio Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd erbyn 2024. Rhoddodd yr adroddiad y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am waith sydd wedi cael ei gynnal ers i'r adroddiad diwethaf gan weithgor aml asiantaethau a pherchnogion glannau'r afon gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 10 Mawrth 2022.

Pwysleisiodd yr Aelod Arweiniol bod yr adroddiad yn gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor i ailsefydlu Gweithgor Cyngor Sir Ddinbych i oruchwylio'r datblygiad o Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd.

Hefyd, dywedodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol bod y cynnig ar gyfer un sylw o bob Grŵp Ardal yr Aelodau ynghyd â Swyddogion Priffyrdd, Amgylchedd a Chynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i ffurfio Gweithgor. Cynigiwyd i enwebu Cadeirydd yn y cyfarfod cyntaf, a fyddai'n well bod yn gynrychiolydd Aelod Etholedig. Pwysleisiwyd bod ffocws y grŵp i ddatblygu strategaeth y Cyngor ar y cyd gyda phartneriaid perthnasol. Byddai'r strategaeth hefyd yn hysbysu'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yr Awdurdod a gafodd ei adolygu'n flaenorol ym mis Tachwedd 2022. Roedd yr Asesiad angen ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau i Nodyn Cyngor Technegol 15 Llywodraeth Cymru.

Cafodd yr Aelodau wybod bod adolygiad o'r strategaeth risg llifogydd wedi cael ei gomisiynu. Roedd ymgynghorwyr allanol wedi eu ceisio i gynorthwyo, yn rhannol oherwydd problemau recriwtio a chadw.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Arweiniol a Phennaeth Dros Dro Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol am y cyflwyniad manwl i'r adroddiad.

Cadarnhawyd y byddai'n benderfyniad ar bob un Grŵp Ardal yr Aelodau yn unigol i benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd Gweithgor.

Gan ymateb i gwestiynau'r aelodau, fe wnaeth y Cadeirydd, yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion gynghori:

- Eu bod yn ymwybodol o gamau gweithredu heb eu cwblhau o'r grŵp blaenorol, byddai'r camau gweithredu hyn yn cael eu cynnwys yn y ffocws cychwynol y grŵp newydd.
- Roedd cyfathrebu gyda rhanddeiliaid yn digwydd ar hyn o bryd i sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd gyda gwaith y rhanddeiliaid.
- Pwysleisiodd yr Aelodau'r pwysigrwydd bod cyfathrebu rhwng rhanddeiliaid yr awdurdod a'r grŵp yn hanfodol.
- Roedd y gweithgor blaenorol wedi cyflawni gwell sgysiau a dealltwriaeth o faterion drwy gyfarfodydd gan gynnwys amryw o randdeiliaid, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac Undebau Ffermio. Roedd sefydlu gweithgor newydd yn adeiladu ar seilwaith a wnaethpwyd yn flaenorol.

Gofynnodd Aelodau bod pob rhanddeiliaid yn gofyn i gael bod yn rhan yn y grŵp i gael eu hysbysu o'r grŵp ac yn cael eu hannog i fynychu'r cyfarfodydd.

PENDERFYNODD Y PWYLLGOR yn amodol ar y sylwadau uchod,

- I. cefnogi'r cynnig i ailffurfio Gweithgor Sir Ddinbych i oruchwylio datblygiad Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd newydd.*
- II. ceisio cynrychiolydd o bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau i fod yn rhan o'r Gweithgor; a*
- III. hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid o'r Gweithgor, eu gwahodd i gymryd rhan a rhoi digon o rybudd ynglŷn â dyddiadau cyfarfodydd fel bod cynifer o bobl â phosib yn dod.*

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Arweiniodd y Cydlynnydd Craffu'r Aelodau trwy'r adroddiad Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu (a ddsbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 29 Mehefin 2023, roedd tair eitem ar y rhaglen wedi'i gynnig. Roedd rhagor o wybodaeth wedi'i geisio o ran y ffioedd maes parcio Llangollen cyn y cyfarfod. Roedd Aelodau wedi clywed bod diwygiad bach i'r Strategaeth Wastraff, pwrpas y Strategaeth Wastraff ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd cynllun cyfathrebu ynghylch cynnyrch hylendid amsugol a newidiadau Gwasanaeth Gwastraff i aelwydydd ansafonol. Roedd yr holl Aelodau yn hapus gyda'r newid.

Gofynnodd y Cynghorydd Brian Jones os allai Aelodau wneud cais am wybodaeth ar effeithiau ariannol i gael ei gynnwys gyda'r adroddiad gwastraff, gan nad oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Gyfathrebu sy'n cael ei chyflwyno. Awgrymodd y Cydlynnydd Craffu bod aelodau yn gwneud cais am adroddiad ar wahân ar yr agweddau ariannol o'r Strategaeth. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai fod yn gylch gwaith y Pwyllgor Craffu Perfformiad i drafod yr agwedd honno o'r Strategaeth.

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o'r ffurflen gynnig gan Aelodau, roedd y Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu i fod i gyfarfod eto ar 25 Gorffennaf 2023. Anogwyd yr Aelodau i lenwi'r ffurflen gydag unrhyw eitemau yr oeddynt yn credu y dylid eu hystyried.

Roedd Atodiad 3 o'r adroddiad yn rhaglen waith y Cabinet petai'r Pwyllgor eisiau craffu unrhyw faterion sydd ar ddod.

Atodiad 4 – hysbyswyd yr aelodau o'r argymhellion a wnaed yn y cyfarfod Craffu blaenorol a'r cynnydd a wnaethpwyd i'w gweithredu.

Roedd Atodiad 5 i'r adroddiad yn gais am ddatganiad o ddiddordeb ar gyfer sylwadau'r pwyllgor ar y grwpiau Her Gwasanaeth. Ynghlwm roedd rhestr o'r datganiadau a ddaeth i law hyd yma. Roedd tri grŵp Gwasanaeth oedd angen sylwadau gan Aelodau Craffu Cymunedol, y rheiny oedd:

- Tai a Chymunedau
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Perfformiad, Digidol ac Asedau
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau am unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb. Eglurwyd y byddai pob Grŵp Gwasanaeth yn cynnal cyfarfod ar-lein yn flynyddol. I ddilyn:

- Enwebodd y Cynghorydd Cheryl Williams ei hun i fynychu'r Grŵp Her Gwasanaeth Tai a Chymunedau.
- Enwebodd y Cynghorydd Brian Jones ei hun i fynychu'r Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau a
- rhoddodd y Cynghorydd Karen Edwards ei henw ymlaen i fynychu Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Digidol ar ran y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grwpiau Her Gwasanaeth. Pwysleisiodd yr aelodau os nad oeddent yn gallu mynychu cyfarfod i gysylltu ag ef a byddai'n ceisio ei orau i fynychu.

Penderfynwyd:

(i) yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau y gofynnwyd amdanynt yn ystod y cyfarfod ynghyd â'r ychwanegiadau a'r diwygiadau a amlinellwyd uchod, cadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1;

(ii) penodi'r aelodau a enwir isod i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grwpiau Her Gwasanaeth canlynol:

- Tai a Chymunedau - Y Cynghorydd Cheryl Williams***
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau - y Cynghorydd Brian Jones***
- Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl - Y Cynghorydd Karen Edwards***

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Dim.

Dyweddodd y Cynghorydd James Elson y byddai'n rhoi adborth ar y Grŵp Craffu Cyfalaf newydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion, Aelodau Arweiniol ac Aelodau am fynychu'r cyfarfod. Diolchwyd hefyd i'r Cydlynnydd Craffu am ei chefnogaeth yn ystod a chyn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20am.